EURWYN WILIAM yn hela blynyddoedd

# ANNO DOMINI

YSGRIFENNAF hyn yn y flwyddyn 1990 : 1990 yn y calendr Cristnogol, gorllewinol, hynny yw. Mae hefyd yn flwyddyn y ceffyl yng nghalendr y Sineaid ac yn flwyddyn 1358 yng nghalendr y Moslemiaid. Dyma ail flwyddyn ar bymtheg ar hugain teyrnasiad y Frenhines Elisabeth II, neu hyd yn oed unfed flwyddyn ar ddeg teyrnasiad Margaret I, 'yr hen Wyddeles' chwedl ein Golygydd tra'n gwisgo'i sbectol arall.

Mae hanes rhyfedd a chymhleth i'r busnes blynyddoedd yma. Rhifwn ein blynyddoedd nawr yn ôl y calendr Gregoraidd, sydd yn fersiwn ddiwygiedig o'r hen galendr Julian a sylfaenwyd yn ei dro ar galendr lleol dinas Rhufain.

Problem fawr y calendrau cynnar oedd sut i ddygymod â chael deuddeg mis i gyd-redeg yn gyson â blwyddyn cylch yr haul. Erbyn cyfnod Iŵl Cesar yr oedd calendr Rhufain ddeufis a hanner ohoni. Pennodd ef fod 365¼ dydd i'r flwyddyn, ac er mwyn dal i fyny estynwyd y flwyddyn yr ydym ni yn ei hadnabod fel 46CC i 445 dydd.

Hyd blwyddyn arferol o hynny ymlaen fyddai 365 niwrnod, ond i 45CC a phob pedwaredd blwyddyn fod yn 366 niwrnod, sef y flwyddyn naid. Ysywaeth, nid dyma ddiwedd y broblem. Gwir hyd blwyddyn yr haul yw 365.2422 dydd ac erbyn 1582 OC roedd y gwahaniaeth rhwng hyn a blwyddyn galendr Cesar o 365.25 dydd eto'n sylweddol, a bu'n rhaid i'r Pab Gregori newid y flwyddyn i 365.2422 o ddyddiau.

Rhag ofn bod hyn i gyd yn llawer rhy syml ichwi, efallai yr hoffech wybod mai 365.242199 dydd yw gwir hyd blwyddyn, a bod iddi 12.368267 mis ac i bob mis 29.530589 diwrnod!

* * *

OND DIM ond ymhel â hyd blynyddoedd y mae hyn oll; nid yw'n cyffwrdd â'r blynyddoedd eu hunain. Soniais am 46 CC uchod, ond wrth gwrs ni adnabyddid y flwyddyn wrth yr enw hwnnw ar y pryd.

Yn Rhufain ei hun, y flwyddyn yr oedd hwn-a-hwn yn gonswl oedd, ac felly y bu am ganrifoedd gan gyd-redeg â blynyddoedd teyrnasiad ymherodr a'r dyddiad o sefydlu Rhufain fel dinas.

Does y fath beth â'r Flwyddyn I i'w chael chwaith. Nid oes sicrwydd llwyr pa bryd y ganwyd Iesu Grist. Bu'r Cristnogion cynnar yn rhifo'r blynyddoedd o gyfnod y merthyron ond yn y flwyddyn 583 dechreuodd Dionysius Exiquus, abad Rhufeinig, ymwrthod â'r dull hwn a phenderfynu cyfrif yn ôl o eni'r Iesu.

Daeth i'r casgliad mai yn y flwyddyn 754 *ab urbe condita* (ers sefydlu Rhufain), y bu hynny, a galwodd honno yn flwyddyn gyntaf ein Harglwydd, *anno domini*, a rhifo popeth a ddigwyddodd cyn hynny fel hyn-a-hyn o flynyddoedd cyn Crist, *ante Christum*.

Yn anffodus, doedd syms Dionysius ddim yn gywir. Dim ond dwy ffynhonnell am ddyddiad geni Crist sydd ar gael, sef llyfrau Mathew a Luc, ac mae'r ddau yn anghytuno â'i gilydd. Yn ôl Mathew, ganed Crist yn ystod neu yn fuan cyn blwyddyn olaf teyrnasiad Herod Fawr, a fu farw yn y flwyddyn 4CC.

Os yw Luc yn iawn yn cyplysu'r enedigaeth â chyfrifiad led-led yr ymherodraeth Rufeinig, ar y llaw arall, mae'r dyddiad yn nes at 6 CC neu hyd yn oed 7 CC. Felly, nid 1990 yw'r flwyddyn hon mewn gwirionedd, ond yn hytrach 1994 neu efallai 1996 neu 1997!

* * *

OND yr oedd dull arall eto yn cael ei ddefnyddio i rifo'r blynyddoedd yn y gorffennol, ac nid 1990 fyddai hi nawr yn ôl y calendr hwnnw ond yn hytrach 5994. Drwy'r Oesoedd Canol ac wedyn, bu ysgolheigion yn ymddiddori mewn ceisio dyddio'r Crëad.

Y mwyaf dylanwadol ohonynt oll oedd James Ussher, Archesgob Armagh (1581-56) ac yn ei lyfr *Chronologia Sacra* (Rhydychen 1660) penderfynodd Ussher mai yn y flwyddyn 4004 CC y crëwyd y byd.

Derbyniwyd dehongliad Ussher fel ateb ffeithiol gywir hyd nes i ddarganfyddiadau gwyddonwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ddechrau codi amheuon — ond mor ddiweddar â 1869, yr oedd John Parry, golygydd *Y Gwyddoniadur*, yn gallu ysgrifennu:

**'Nid yn unig dyn a grewyd ddiweddaf, ond creadigaeth dyn ydyw yr unig un y mae yr Ysgrythur yn penderfynu ei hynafiaeth; gwneid hyn trwy y taflenau achyddol o'r Patriarchiaid, cyn ac ar ôl y diluw, yn llinell Seth, mab Adda; a Shem, mab Noah. Ac er rhyw fân amrywiaethau, dangosir trwyddynt fod dyn wedi bod ar y ddaiar o ddeutu 6,000 o flynyddoedd; yr hyn sydd yn cytuno â chasgliadau gwyddoniaeth ac ag ymchwiliadau hanesiaeth'.**

Twyllo ei hunan 'oedd Parry: doedd hyd yn oed gytundeb ar 4004 CC fel dyddiad y Crëad, ac yr oedd eisoes wedi cyfaddef hynny tra'n trafod Amseryddiaeth yn ei waith mawr. Roedd sawl cyfrif posibl arall am ddechrau'r byd, megis Medi, 5598 CC (y cyfrif Groegaidd); 5411 CC (yn ôl yr hanes Iddewig, Josephus); 5508 CC; Hydref, 4008 CC; a Mawrth, 3761 CC (cyfrif Iddewig arall). Yn Llyfr Coch Hergest defnyddir 5879 am y flwyddyn 680 OC, sy'n dyddio'r Crëad i 5199 CC.

* * *

OND CYFRIF arall eto sydd wedi gadael yr olion mwyaf gweladwy yng Nghymru. Ar bum tŷ o oes y Frenhines Elisabeth I yn siroedd Dinbych a Fflint, ceir palisoedd derw cerfiedig yn dwyn arysgrifau sy'n cynnwys dyddiadau yn ôl Oedran y Byd, *Anno Mundi*.

Mae'r tai yn amlwg wedi eu codi gan yr un cwmni o adeiladwyr, ac y mae tri ohonynt ym mhlwyf Bodelwyddan yn Nyffryn Clwyd. Ar balis Penisa'r-glascoed ceir y geiriau, **ANNODOMINI : 1570 : OEDRAN Y BD : 5552;** yn y Faenol Fach ceir **YNENWDVW:ANNODOMINI : 1571 ANNO MVNDI..53..VINCIS;** ac yn Fferm, **ANNO:DOMINI:1593:5555.** Yn y Cyffdy, Llanrwst, gwelir ANNO:MVNDI:5556:ANNO-:DOMINI:1596, ac ym Mhlasnewydd, Llanfair Talhaearn, **ANNO:DOMINI:1585....ANNO:MVNDI:5547.**

*Parhad ar dudalen 9*

# Hanesydd Dinas Lerpwl

## Gan D. BEN REES

GANWYD Thomas Lloyd-Jones ar Awst 14eg, 1904, i rieni Cymraeg eu hiaith, Catherine a Robert Lloyd-Jones, yn ardal Princes Park, Lerpwl. Arhosodd yn y ddinas trwy gydol ei oes a chyfrannodd yn hael i'w hetifeddiaeth, ei hanes, ac i addysg ei hoedolion.

Ymunodd Tom â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr pan oedd yn 18 mlwydd oed, a rhoddodd gefnogaeth ddiffuant i'r mudiad, gan esgyn yn Is-Gadeirydd Cangen Lerpwl a'i Chadeirydd am dair blynedd ar ddeg. Gwasanaethodd y Gymdeithas oddi allan i'w ddinas hefyd, fel Cadeirydd Dosbarth Gorllewin Sir Gaerhirfryn a Sir Gaer ac fel aelod o'i Chyngor Canolog.

Yn y cyfnod wedi'r rhyfel, daeth ef ei hunan yn ddarlithydd hynod lwyddiannus gyda'r Gymdeithas, gan agor dosbarthiadau yn arbennig yn Aigburth, Speke, Hunts Cross a Halewood. Ei nod oedd darpar yr un cyfleusterau ar gyfer astudio pynciau diwylliannol ym maestrefi Lerpwl ag oedd ar gael ym Mhrifysgol y ddinas.

Llwyddodd yn hyn o beth a bu i'r Brifysgol gydnabod ei gyfraniad gyda M.A. Anrhydeddus ym 1965. Yr oedd yn gwir haeddu hyn gan ei fod wedi gadael ysgol yn dair ar ddeg oed i roi cymorth i'w fam weddw. Lladdwyd ei dad mewn damwain ffordd pan oedd Tom ond dwy flwydd oed.

Deuai siarad yn gyhoeddus yn hawdd iddo a bu'n darlithio am flynyddoedd i gymdeithasau lleol ar ran ei gyflogwyr, Shell-Mex. Gweithiodd i Shell-Mex a B.P. yng nglanfa olew Dingle Bank, Lerpwl am 45 mlynedd a daeth yn arolygwr llongau yno.

Ond ei brif ddiddordeb oedd hanes. 'Roedd yn hanesydd Lerpwl heb ei ail ac yn awdur nifer o lyfrau a phamffledi, fel, *Liverpool Old and New* (Wakefield, 1975); *101 Views of Edwardian Liverpool and New Brighton* (Lerpwl, 1972); *Liverpool and Wirral* (1978); *Know Your Liverpool: Walks in the City Centre* (1974), a *Street Names of Liverpool*.

Pan oedd yn ieuanc 'roedd yn gerddwr brwd a'i ymdrech lenyddol gyntaf oedd *Rambles Around Caergwrle* yng Nghlwyd, a gyhoeddwyd gan y London and North Eastern Railway yn 1934.

* * * *

'ROEDD yn arloeswr mewn llawer maes, ac yn arbennig gyda Chymdeithas Gwestai Heicwyr — yr Youth Hostels Association. Treuliodd fywyd llawn iawn a mwynhaodd gefnogaeth lawn ei wraig, Anne (Caddock), a briododd yn 1934. Ganwyd mab, Robin, iddynt.

Bu'n glaf yn Ysbyty Garston am y chwe blynedd diwethaf, yn methu cyfathrebu yn Saesneg — iaith ei ddarlithio a'i lyfrau, iaith ei flynyddoedd ffrwythlon. Ond cyfathrebai â mi yn Gymraeg — iaith ei febyd yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, David Street, yn y Dingle, lle daeth o dan ddylanwad ei Weinidog, y Parchg D. D. Williams oedd hefyd yn hanesydd galluog o'r enwad.

Yr oedd yn briodol fy mod i, fel Gweinidog yn yr un enwad a chydweithiwr am flynyddoedd yng Nghymdeithas Addysg y Gweithwyr, wedi gweinyddu yng ngwasanaeth angladd Tom yn Springwood ar y 24ain o Orffennaf.